

Y Gronfa Ariannol wrth Gefn(FCF)

Beth yw'r Gronfa Ariannol wrth Gefn/FCF?

Mae'r **Gronfa Ariannol wrth Gefn (FCF)** yn darparu cefnogaeth ariannol i fyfyrwyr cymwys a all fod angen cymorth arnynt â chostau hanfodol wrth astudio yn y coleg.

Mae FCF yn **gronfa ddewisol**, sy'n golygu bod pob cais yn cael ei ystyried yn unigol ac nid yw cefnogaeth yn cael ei warantu.

Pwy sy'n gallu gwneud cais?

Cyn gwneud cais, gwiriwch os ydych yn cwrdd â'r amodau cymhwysedd.

I wneud cais ar gyfer FCF, rhaid i chi:

- Fod yn **fyfyrwr cyfredol yng Ngholeg Catholig Dewi Sant**
- Wedi bod yn 16 oed neu'n henach ar **31 Awst** cyn dechrau'r flwyddyn academiaidd
- Bod yn astudio **rhaglen lawn amser neu ran amser**
- Cwrdd â **gofynion Preswyllo** perthnasol
- Cwrdd ag **amodau incwm a chymhwysedd ariannol yr aelwyd**

Incwm y Cartref (yr aelwyd)

Dylai incwm eich aelwyd yn arferol fod £30,000 neu'n is er mwyn bod yn gymwys am gefnogaeth FCF.

Bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth o incwm ac amodau'r aelwyd fel rhan o'ch cais.

Gwiriwch eich bod yn cwrdd â'r amodau cymhwysedd cyn gwneud cais os gwelwch yn dda.

Os nad ydych chi'n siŵr os ydych yn gymwys, mynnwch sgwrs â'ch **Tiwtor Bugeiliol** neu cysylltwch â'r Coleg cyn cyflwyno cais.

Sut i wneud cais

Bydd angen i chi gwblhau **ffurflen gais FCF newydd bob blwyddyn academiaidd**, hyd yn oed os gwnaethoch chi dderbyn FCF mewn blwyddyn flaenorol.

Os ydych chi'n derbyn **LCA (EMA)** bydd o hyd rhaid i chi wneud cais ar wahân ar gyfer FCF.

Y Dystiolaeth fydd angen arnoch

Bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth i gefnogi'ch cais. Mae'r dystiolaeth sydd ei angen yn dibynnu ar amodau eich aelwyd.

Gall esiamplau o dystiolaeth gynnwys:

- **LCA/EMA:** Eich llythyr cyfredol sy'n dangos eich dyfarniad EMA.
- **Credyd Cynhwysol:** Eich **datganiad Credyd Cynhwysol llawn**, sy'n dangos y tudalennau i gyd a chynllun eich taliadau.
- **Payslips:** Slipiau tâl diweddar os gofynnir amdanynt fel tystiolaeth o incwm yr aelwyd.
- **Budd-daliadau:** Llythyron dynodi budd-daliadau neu ddatganiadau sy'n dangos y budd-daliadau sy'n cael eu derbyn a manylion taliadau.
- **Incwm Pensiwn:** Datganiadau pensiwn cyfredol neu lythyron dyfarniadau, lle bo'n berthnasol.
- **Incwm arall yr aelwyd:** Tystiolaeth o unrhyw incwm arall yr aelwyd, yn ôl y galw.

Sicrhewch fod y dystiolaeth i gyd sy'n cael ei uwch lwytho yn **eglwur, yn ddarllenadwy ac yn dangos yr enwau, dyddiadau a manylion taliadau perthnasol.**

Pwysig: Credyd Cynhwysol

Os ydych chi'n darparu Credyd Cynhwysol fel tystiolaeth, rhaid i chi uwch lwytho'r **datganiad Credyd Cynhwysol cyfan.**

Ni fydd yn bosibl derbyn datganiadau na sy'n gyflawn, tudalennau unigol neu sgrin luniau sy'n dangos rhannau o'r taliadau Credyd Cynhwysol at bwrpas asesu'ch cais.

Os oes angen unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth bellach er mwyn asesu eich cais, byddwn yn cysylltu â chi.

Gyda beth all FCF helpu?

Yn ddibynnol ar eich amgylchiadau unigol, gall FCF eich helpu gyda chostau hanfodol fel:

- **Teithio i ac o'r Coleg**
- **Llyfrau sy'n hanfodol ar gyfer eich cwrs** (gweler y nodyn isod)
- **Offer a deunydd ysgrifennu hanfodol** (gweler y nodyn isod)
- **Tripiau sy'n hanfodol i'r cwrs**
- **Ffioedd arholiad neu gofrestru mewn rhai amodau penodol**
- **Gwiriadau DBS sydd eu hangen ar gyfer eich cwrs**
- **Costau hanfodol eraill** allai effeithio ar eich gallu i fynychu neu barhau yn y coleg

Llyfrau sy'n hanfodol ar gyfer eich cwrs

Os yw llyfr yn hanfodol ar gyfer eich cwrs, **rhaid bod yr athro wedi gofyn amdano** a'i gytuno cyn i chi ei brynu.

Bydd unrhyw lyfrau a brynwyd gyda FCF yn parhau i fod yn **eiddo i'r Coleg** ac efallai bydd rhaid i chi eu dychwelyd pan fyddwch wedi gorffen eich cwrs.

Ni allwn ad-dalu myfyrwyr sydd wedi prynu llyfrau eu hunain.

Offer ac offer TG

Os oed angen **offer TG** arnoch chi, rhaid i chi wneud cais drwy'ch tiwtor bugeiliol, a fydd yn cydlynu ag adran TG y coleg.

Mae offer TG yn **ddibynnol ar argaeledd**, a bydd unrhyw offer TG a ddarperir yn parhau i fod yn **eiddo i'r Coleg**.

Ar gyfer **mathau eraill o offer**, rhaid gwneud cais ffurfiol cyn i unrhywbeth gael ei brynu. Efallai byddwn yn gwirio gyda'ch athro perthnasol i gadarnhau bod yr offer yn **hanfodol ar gyfer eich cwrs**.

Peidiwch â phrynu offer eich hun nes i chi dderbyn cymeradwyaeth ymlaen llaw os gwelwch yn dda, achos ni allwn warantu ad-daliadau.

Beth sy'n digwydd ar ôl i fi ymgeisio?

Byddwn yn edrych ar eich cais, y dystiolaeth gefnogol rydych wedi ei gyflwyno a'ch amodau unigol chi i benderfynu a ydych chi'n gymwys a pha gefnogaeth all fod ar gael i chi.

Rydym yn anelu at roi gwybod i chi beth yw canlyniad eich cais o fewn pedair wythnos i dderbyn eich cais.

Nodwch os gwelwch yn dda

Ar ddechrau'r flwyddyn academiaidd rydyn ni'n derbyn **nifer fawr o geisiadau am FCF**.

Byddwn ni'n prosesu'r ceisiadau mor gyflym ag y gallwn, ond caniatewch **bedair wythnos** i'r asesiad gael ei wneud os gwelwch yn dda.

Os bydd angen rhagor o wybodaeth neu dystiolaeth arnon ni, byddwn yn cysylltu â chi.

Ydy'ch sefyllfa ariannol wedi newid?

Rydyn ni'n deall y gall amgylchiadau ariannol newid yn ystod blwyddyn academiaidd.

Os byddwch chi neu'ch teulu'n profi anawsterau ariannol sy'n effeithio ar eich gallu i **ddod i'r coleg neu i barhau i bresenoli**, dewch i siarad â ni os gwelwch yn dda.

Efallai byddwch chi'n gallu derbyn cefnogaeth os bydd eich amgylchiadau'n newid yn ystod y flwyddyn academiaidd.

Gwybodaeth bwysig

Mae FCF yn **gronfa ddewisol**.

Nid yw cwrdd â'r meini prawf cymhwysedd a chyflwyno cais yn **gwarantu y bydd cymorth ariannol yn cael ei ddyfarnu** o reidrwydd.

Mae'r math a'r faint o gymorth sydd ar gael yn dibynnu ar eich:

- Amgylchiadau unigol
- Anghenion ariannol
- Tystiolaeth gefnogol
- Cefnogaeth ariannol arall a all fod ar gael i chi

Os ydych yn derbyn budd-daliadau

Byddwch yn ymwybodol y gall derbyn cymorth ariannol drwy FCF **effeithio ar eich cymhwysedd ar gyfer rhai budd-daliadau**.

Os nad ydych yn siŵr sut gallai derbyn cymorth FCF effeithio ar eich budd-daliadau, mynnwch gyngor os gwelwch yn dda.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Canlyniad eich cais

Bydd pob cyfathrebiad am eich cais FCF yn cael ei anfon at eich **cyfrif e-bost Coleg**.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwirio'ch e-byst yn gyson, achos mae'n bosibl y gwnawn ni gysylltu â chi os oes angen rhagor o wybodaeth neu dystiolaeth arnon ni.

Os bydd eich cais yn llwyddiannus

Byddwch yn cael clywed drwy eich **e-bost Coleg**. Bydd yr e-bost yn esbonio pa gymorth sydd wedi cael ei gytuno, a lle bo'n berthnasol, beth sy'n digwydd nesaf.

Os bydd eich cais yn aflwyddiannus

Os hoffech chi apelio yn erbyn y penderfyniad, rhaid i chi gyflwyno apêl **o fewn 14 diwrnod i'r dyddiad yr e-bost canlyniad**.

Angen cymorth?

Os ydych chi:

- Ddim yn siŵr os byddwch yn gymwys
- Ddim yn siŵr pa dystiolaeth fydd angen i chi gyflwyno
- Angen help i gwblhau eich cais
- Eisiau gwybod os gall FCF eich helpu gyda chost benodol
- Wedi profi newid yn eich amgylchiadau ariannol

mynnwch sgwrs â'ch **Tiwtor Bugeiliol** neu cysylltwch â'r coleg os gwelwch yn dda.

Os dych chi ddim yn siŵr os byddwch chi'n gymwys, rydyn ni'n argymhell i chi siarad â ni cyn gwneud cais.

Ceisiadau yn Gymraeg

Mae gwybodaeth a ffurflenni cais FCF ar gael **yn Gymraeg ac yn Saesneg**.

Ni fydd ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na cheisiadau a gyflwynir yn Saesneg.